GWYBODAETH GEFNDIROL

Rhaglen adferiad y YMCA

- Mae gan y YMCA saith swyddfa ar draws y Lan Orllewinol a Dwyrain Jerwsalem. Lleolir y rhaglen adferiad yn Beit Sahour, ar gyrion dwyreiniol Bethlehem, ac mae'n ganolbwynt i'n Apêl Nadolig am 2009.
- Sefydlwyd y rhaglen gyflawn yn 1989.
- Mae'n cynnig cyngor, adferiad corfforol a hyfforddiant galwedigaethol i'r rhai, yn y Lan Orllewinol, a anafwyd neu a effeithiwyd gan y gwrthdaro.
- Gall y rhai sydd angen cefnogaeth a gwasanaeth cynghori dwys aros yn y ganolfan am gyfnod – fel arfer, defnyddir y cyfleusterau hyn gan rai a anafwyd yn ddifrifol ac sy'n dymuno cymorth pellach.
- Cynigir gwasanaeth cynghori seico-gymdeithasol, yn arbennig i'r rhai sydd o dan straen oherwydd anaf, a chyngor ynglŷn â gyrfa (er mwyn ystyried cyfleoedd newydd). Mae'n agored i drigolion a chymwynaswyr sy'n ymweld.
- Darperir hyfforddiant galwedigaethol.
- Mae'r rhaglen yn cyflogi mwy na 40 o staff.
- Yn 2007-8 cynorthwyodd y rhaglen 824 o bobl (12-25 oed yn bennaf) o ardaloedd ar draws y Lan Orllewinol.

Gwaith ehangach y YMCA yn nhiroedd meddiant Palestina

- Sefydlwyd mudiad y YMCA rhyngwladol dros 150 o flynyddoedd yn ôl. Fel Cymorth Cristnogol, mae'n ceisio mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi tlodi ac anghyfiawnder ar draws y byd.
- Mae'r YMCA yn Nwyrain Jerwsalem yn cynnal rhaglenni datblygu yn y Lan Orllewinol, yn cynnwys y rhaglen adferiad, hyfforddiant galwedigaethol, hyfforddi gwragedd a gwaith eiriolaeth.

Bethlehem - mwy o wybodaeth gefndirol

- Lleolir dinas hynafol Bethlehem yn y Lan Orllewinol, tua phum milltir i'r de o Jerwsalem (Mae'r Lan Orllewinol, ynghyd â Dwyrain Jerwsalem a Llain Gaza, yn rhan o diroedd meddiant Palestina. Mae'r ardaloedd hyn wedi eu meddiannu gan Israel ers 1967.)
- Mae'r term 'meddiant' yn golygu fod gan y Palestiniaid reolaeth gyfyng dros rai materion llywodraethol mewn ambell ardal, ond mae'r tiroedd o dan reolaeth filwrol Israel.
- I lawer o drigolion Bethlehem mae'r sefyllfa fel petai'n dirywio nid gwella, wrth i drais, tlodi ac anobaith ddyfnhau.
- Amgylchynir Bethlehem ar dair ochr gan wahanfur, sydd mewn mannau yn wal wyth medr o uchder. Mae'r gwahanfur hwn yn torri Bethlehem i ffwrdd yn llwyr oddi wrth Ddwyrain Jerwsalem.
- Twristiaeth oedd prif ffynhonnell incwm Bethlehem ar un adeg. Er bod hyn wedi dechrau gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf,

gwaethygodd eto gydag adnewyddu'r trais yn Gaza ar ddiwedd 2008.

- Dywed Halmiya Koa, cynghorydd o'r YMCA:
  'Mae'n anodd ennill bywoliaeth, ac mae teuluoedd yn mynd yn fwy a mwy tlawd – mae'r wal yn eu gwahanu o'u tir a'u swyddi. Mae'n golygu na all teuluoedd fforddio popeth sydd ei angen ar eu plant, o feddyginiaethau i lyfrau neu ddillad ysgol, a hyd yn oed pethau bach fel teganau. Mae rhieni yn gofidio ac yn anhapus ac mae hynny wedyn yn effeithio ar y plant.'

- Plant Palestinaidd sy'n byw ym Methlehem, felly hwy yn unig a effeithir gan y gwrthdaro yno. Ond yng nghyd-destun ehangach Israel a thiroedd meddiant Palestina, mae plant Israelaidd yn wynebu trawma. Mewn adroddiad diweddar gan Amnest Rhyngwladol, dywed Dalia Yossef o ganolfan Hossen am yr effaith y mae ymosodiadau rocedi yn cael ar blant ac oedolion o gwmpas Sderot: 'Mae'r plant yn ofni cysgu ar eu pen eu hunain, a hyd yn oed mynd i'r toiled eu hunain. Teimlant na all eu rhieni eu hamddiffyn. Mae gwlychu gwely yn arwydd cyffredin o'u pryder a'u hansicrwydd. Mae'r rhieni hefyd ar bigau drain ac yn rhwystredig.

Gwaith Cymorth Cristnogol yn Israel a thiroedd meddiant Palestina

- Mae Cymorth Cristnogol wedi gweithio yn y rhanbarth am dros 50 mlynedd.
- Rydym yn cefnogi mwy na 20 o fudiadau Israelaidd a Phalestinaidd, gan eu helpu i wella eu bywydau, a herio'r strwythurau sy'n achosi tlodi ac sy'n ymyriad â hawliau'r bobl.
- Y mae gennym ymrwymiad yma, fel ymhob man arall y gweithiwn, i helpu'r cymunedau ar y cyrion lle bynnag bo'r angen mwyaf, a beth bynnag eu crefydd neu hil.
- Ar hyn o bryd y mae tiroedd meddiant Palestina yn safle 106 allan o 179 ar Restr Datblygiad Dynol y CU (mae Israel yn y 4ydd safle).
- Mae Cymorth Cristnogol wedi ymrwymo i waith eiriolaeth, er mwyn dod o hyd i ateb dichonadwy a chynaliadwy i'r gwrthdaro, sy'n brif achos tlodi yn y rhanbarth hwn. Mae Cymorth Cristnogol hefyd yn credu bod ateb o'r fath yn hanfodol i ddiogelwch yr Israeliaid a'r Palestiniaid, a'r unig ffordd i ddileu tlodi yn y rhanbarth.
- Gellir darllen mwy am waith Cymorth Cristnogol yn y Dwyrain Canol, ein hymateb ni i'r argyfwng yn Gaza, a'n partneriaid yn y rhanbarth, ar www.christianaid.org.uk/whatwedo/middle-east/iopt

Safbwynt Cymorth Cristnogol ar ateb dichonadwy i'r gwrthdaro

Yn 2007 cyhoeddodd Cymorth Cristnogol adroddiad, *Israel and Palestine - a question of viability* (Gellir lawr-lwytho'r papur hwn neu ei archebu o www.christianaid.org.uk. Mae nifer o'n partneriaid yn diffinio 'dichonoldeb' fel 'ffordd normal o fyw'. Wrth grynhoi, mae'r adroddiad yn dweud bod angen wyth elfen hanfodol i wneud unrhyw heddwch yn ddichonadwy:

- diwedd ar y meddiant – carreg sylfaen dichonoldeb
- hunanreolaeth a sofraniaeth: bod yn rhydd i wneud penderfyniadau gwleidyddol heb ymyrraeth allanol
- trefn llywodraethu effeithiol: system wleidyddol drefnus a rheolaeth gan y llywodraeth dros gasglu a defnyddio adnoddau ariannol
- amddiffyn hawliau'r Israeliaid a'r Palestiniaid
- diogelwch pawb: ni ddylid gwahanu diogelwch yr Israeliaid a'r Palestiniaid
- rhyddid i symud: rhwng y Lan Orllewinol a Llain Gaza, ac oddi fewn iddynt
- rheolaeth dros yr adnoddau naturiol: tir, dŵr, mwnau, y môr – a hynny er budd y boblogaeth gyfan
- twf a ffyniant economaidd: diwedd ar ddibyniaeth ar gymorth.

Mae'r papur yma yn amlinellu hefyd safbwynt Cymorth Cristnogol ynglŷn â'r broses tuag at fod yn ddichonadwy. Rhaid iddi:

- gael ei llywio gan gyfraith ryngwladol
- fod yn ddiduedd
- sicrhau fod y ddwy ochr yn atebol, gan roi diwedd ar anghosbedigaeth.

Gwaith Cymorth Cristnogol ar wrthdaro a thlodi

- Mae Cymorth Cristnogol wedi ymroi i ddileu tlodi ynghyd â'r sefyllfaoedd, systemau a'r strwythurau sy'n ei achosi a'i gynnal.
- Gwrthdaro yw un o brif achosion tlodi mewn nifer o wledydd heddiw.
- Gall gwrthdaro achosi tlodi oherwydd:
  - bod pobl yn cael eu dadleoli a'u gorfodi i fyw dros dro, neu'n barhaol, mewn gwersylloedd neu lety arall sy'n anghynaladwy
  - mae'n peryglu mynediad i ysgolion, gofal iechyd, dŵr a bwyd. Digwydd hyn pan fod pobl yn byw mewn llety dros dro i ffwrdd o'u cartrefi, neu pan fod yr economi leol o dan fygythiad, oherwydd gwrthdaro a chanoli adnoddau neu gyfyngiadau ar y rhyddid i deithio.
  - yn ogystal â'r ffactorau ymarferol hyn, mae'r bobl sy'n cael eu heffeithio gan y gwrthdaro yn wynebu rhwystrau eraill rhag byw bywyd normal, gan gynnwys ofn, trawma, anaf a phrofedigaeth.

- Mae Cymorth Cristnogol yn helpu cymunedau tlawd a effeithir gan y gwrthdaro.

  - Weithiau drwy roi cymorth, er enghraifft, mewn sefyllfa o argyfwng fel yr ymladd diweddar mewn rhannau o Weriniaeth Ddemocrataidd y Congo.

  - Weithiau ar gyfer ailadeiladu cymunedau pan fo gwrthdaro wedi dod i ben, fel yn achos Sierra Leone yn dilyn y blynyddoedd o ryfel cartref.

- Ond mae mwy a mwy o'r gwaith yma yn digwydd mewn sefyllfaoedd lle mae gwrthdaro tymor hir yn achosi tlodi cylchol, fel yn Israel a thiroedd meddiant Palestina.

Ym mhob un o'r sefyllfaoedd hyn mae Cymorth Cristnogol yn credu bod eiriolaeth ac adeiladu heddwch yn waith hanfodol, nid yn unig i leddfu dioddefaint cymunedau ond hefyd er mwyn delio â gwir achos tlodi yn yr ardaloedd hyn.

Am Cymorth Cristnogol

Mae Cymorth Cristnogol yn fudiad Cristnogol sy'n mynnu y gellir ac y dylid gweithio ar frys i newid y byd i fod yn un lle gall pawb fyw bywyd llawn, rhydd o dlodi.

Rydym yn gweithio ar draws y byd i hybu newid sylfaenol er mwyn dileu achosion tlodi, gan ymdrechu i sicrhau cyfartaledd, urddas a rhyddid i bawb, beth bynnag eu ffydd neu hil. Rydym yn rhan o fudiad ehangach dros gyfiawnder cymdeithasol.

Rydym yn darparu cymorth brys, ymarferol ac effeithiol, lle bynnag bo'r angen mwyaf, gan fynd i'r afael ag effeithiau tlodi yn ogystal â mynd at wraidd yr hyn sy'n ei achosi.

Y newyddion diweddaraf am Jessica Safar

Yn 2004 roedd ein hapêl Nadolig yn canolbwyntio ar stori Jessica Safar (a welir uchod), saith oed ar y pryd. Cyfrannodd llawer o'n cefnogwyr yn hael iawn at yr apêl hon – diolch o galon i chi.

Collodd Jessica ei llygad oherwydd shrapnel ac fe brofodd trawma mawr yn dilyn y digwyddiad. Diolch i'r YMCA, partner Cymorth Cristnogol, a leolir ym Methlehem, bu rhywun yn cynghori Jessica a chafodd lygad gwydr. Bu hyn yn help iddi hi ddod i delerau â'r digwyddiad a symud yn ei blaen.

Bum mlynedd ymlaen, dyma'r wybodaeth ddiweddaraf gan y YMCA:

Mae Jessica nawr yn 12 ac yn gwneud yn dda iawn yn yr ysgol. Ar lawer ystyr mae'n ferch normal 12 mlwydd oed. Dywed ei mam (a welir uchod) a'i hathrawon ei bod hi'n 'hunanhyderus ac annibynnol wrth astudio'. Mae ganddi lawer o ffrindiau ac nid yw'r ffaith fod ganddi lygad gosod yn ei phoeni.

Ond erys rhai problemau. Mae sŵn saethu yn dal i'w dychryn, hyd yn oed mewn ffilmiau. Ac mae hi angen sbectol oherwydd y straen ar y llygad arall, ac mae'r YMCA wedi rhoi blaenoriaeth iddi, gan nad yw'r teulu mewn sefyllfa ariannol i allu fforddio prynu sbectol.

Diolch i’ch cefnogaeth chi i Cymorth Cristnogol, mae partneriaid fel y YMCA yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau plant.